**JCQ/AA/LD**
**Ffurflen 8RF**

# Tystiolaeth i gyd-fynd â Ffurflen 8 pan mae ymgeisydd yn symud ymlaen o gymwysterau TGAU i gymwysterau TAG

Dylid defnyddio'r ffurflen hon ar gyfer ymgeiswyr sydd ag anawsterau dysgu:

- **nad ydynt** yn destun i Gynllun Addysg, Iechyd a Gofal (EHCP) presennol (Lloegr), Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (Gogledd Iwerddon), neu Gynllun Datblygu Unigol (Cymru) a
- sydd â Ffurflen 8 yn barod, ac
- sy'n parhau i fod angen 25% o amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd (gan gynnwys ymgeiswyr sydd angen darllenydd cyfrifiadur/darllenydd yn ogystal â'r 25% o amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd).

**Rhaid** defnyddio'r ffurflen hon i ddiweddaru'r dystiolaeth a rhaid ei chadw ar ffeil yn y ganolfan gyda'r Ffurflen 8 bresennol at ddibenion arolygu.

Os oes gan ymgeisydd Ffurflen 8 wedi'i chwblhau'n llawn a bydd angen **25% o amser ychwanegol** a/neu **ysgrifennydd** a/neu **ddarllenydd cyfrifiadur/darllenydd** o hyd**,** gellir trosglwyddo'r Ffurflen 8 ymlaen o gymwysterau TGAU i TAG, p'un a yw'r ymgeisydd yn aros o fewn yr un ganolfan neu'n symud i ganolfan newydd.

**Rhaid** prosesu cais ar-lein am 25% o amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd a/neu ddarllenydd cyfrifiadur/darllenydd.

Dylid darllen penodau 5.2.2, 5.5.5 ac 5.7.4 o ddogfen y CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol* cyn llenwi'r ffurflen hon.

| | |
|---|---|
| **Enw'r Ymgeisydd** | |
| **Dyddiad Geni** | |
| **Rhif yr Ymgeisydd** | |
| **Cyfres arholiadau gyntaf** | |
| **Blwyddyn (blynyddoedd) academaidd y bydd yr ymgeisydd yn astudio'r cwrs** | |
| **Enw'r Ganolfan** | |
| **Cyfeiriad E-bost y Ganolfan** | |
| **Rhif y Ganolfan** | |

**Rhaid i'r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig, neu'r aseswr sy'n gweithio yn y ganolfan, lenwi'r ffurflen hon.**

| **Enw'r Ymgeisydd:** |
|---|

## Gwiriadau Ffurflen 8

**Rhaid** gwirio Ffurflen 8 (Rhannau 1, 2 a 3) cyn y gellir trosglwyddo Ffurflen 8.

**Rhaid** i bob datganiad gael ei gadarnhau.

| | |
|---|---|
| Mae Rhan 1 o Ffurflen 8 wedi'i chwblhau. | **Ydy** ☐ **Nac ydy** ☐ |
| Mae digon o wybodaeth yn Rhan 1 sy'n dangos darlun o angen a ffordd arferol o weithio'r ymgeisydd. | **Oes** ☐ **Nac oes** ☐ |
| Mae Rhan 2 o Ffurflen 8 wedi'i chwblhau. | **Ydy** ☐ **Nac ydy** ☐ |
| Ar adeg yr asesiad, roedd y profion a gofnodwyd yn Rhan 2 o Ffurflen 8 yn gyfredol, yn briodol i oedran ac wedi'u safoni'n genedlaethol. | **Oedd** ☐ **Nac oedd** ☐ |
| Mae'r profion a gofnodwyd yn Rhan 2 yn bodloni'r meini prawf tystiolaeth cyfredol ar gyfer y trefniant/trefniadau mynediad. | **Ydyn** ☐ **Nac ydyn** ☐ |
| Cafodd yr ymgeisydd ei asesu yn ddim cynharach na dechrau Blwyddyn 9. | **Do** ☐ **Naddo** ☐ |
| Mae Rhan 2 o Ffurflen 8 wedi'i llofnodi a'i dyddio gan yr aseswr. | **Ydy** ☐ **Nac ydy** ☐ |
| Mae tystiolaeth wedi'i darparu sy'n dangos bod gan yr aseswr gymhwyster priodol mewn asesu.<br><br>Er enghraifft:<br>• copi o Dystysgrif Ymarfer Asesu (APC) gyfredol wedi'i chyhoeddi gan Patoss, Dyslexia Guild neu'r British Dyslexia Association;<br>• copi o dystysgrif cymhwyster asesiad Lefel 7;<br>• sgrinlun o gofrestriad HCPC yn dangos y Rhif Cofrestru Unigryw;<br>• sgrinlun o restr SASC yn dangos y rhif cod APC a'r dyddiad dod i ben;<br>• sgrinlun o restr ar gyfer Graddedigion PAPAA yn dangos rhif y dystysgrif;<br>• sgrinlun o restr ar gyfer Deiliaid Tystysgrifau CPT3A yn dangos rhif y dystysgrif;<br>• sgrinlun o restr ar gyfer Deiliaid Tystysgrifau ETAAC yn dangos rhif y dystysgrif; neu<br>• sgrinlun o restr ar gyfer Deiliaid Tystysgrifau Patoss AAA yn dangos rhif y dystysgrif; | **Oes** ☐ **Nac oes** ☐ |
| Mae Rhan 3 o Ffurflen 8 wedi'i chwblhau, a'r datganiad wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan y Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig/Pennaeth y Ganolfan. | **Ydy** ☐ **Nac ydy** ☐ |

| **Enw’r Ymgeisydd:** |
|---|

## Tystiolaeth wedi'i diweddaru o ffordd arferol o weithio yn y ganolfan

Mae'r wybodaeth isod yn seiliedig ar adrannau 5.2.2, 5.5.5 a 5.7.4 o ddogfen y CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol*, darparu tystiolaeth ar gyfer 25% o amser ychwanegol a/neu ddarllenydd cyfrifiadur/darllenydd a/neu ysgrifennydd pan mae ymgeisydd yn symud ymlaen o gymwysterau TGAU i gymwysterau TAG.

## Tystiolaeth o 25% o amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd

| **Cadarnhau mai 25% o amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd yw ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio yn y ganolfan o hyd.** |
|---|
| |
| **Darparu tystiolaeth gan staff addysgu bod gan yr ymgeisydd anawsterau sylweddol a pharhaus gyda:**<br>• **cadw at yr amser (25% amser ychwanegol)**<br>• **sillafu a/neu ysgrifennu (ysgrifennydd)**<br>**a sut mae'r rhain yn cael effaith sylweddol ar addysgu a dysgu.** |
| |

## Tystiolaeth ar gyfer darllenydd cyfrifiadur/darllenydd

Cwblhewch y wybodaeth ganlynol os yw'r ymgeisydd yn parhau i fod angen darllenydd cyfrifiadur/darllenydd, yn ogystal â 25% o amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd.

| **Cadarnhewch natur nam yr ymgeisydd sy'n effeithio ar ddarllen.** |
|---|
| |
| **Cadarnhewch mai defnyddio darllenydd cyfrifiadur/darllenydd yw ffordd arferol a chyfredol yr ymgeisydd o weithio yn y ganolfan o hyd.** |
| |

| **Enw'r Ymgeisydd:** |
|---|

## Trosglwyddo trefniadau mynediad

Ar sail y Ffurflen 8 bresennol a'r wybodaeth yn y ffurflen hon, cofnodwch y trefniadau mynediad y bydd cais yn cael ei gyflwyno amdanyn nhw:

☐ 25% o amser ychwanegol

☐ ysgrifennydd/technoleg adnabod lleferydd/prosesydd geiriau gyda gwiriwr sillafu, gramadeg a/neu gyfleuster rhagfynegi testun wedi'i alluogi

☐ darllenydd cyfrifiadur/darllenydd (yn ogystal â 25% o amser ychwanegol a/neu ysgrifennydd)
**Sylwer:** Cofnodir tystiolaeth ar gyfer darllenydd cyfrifiadur/darllenydd yn Rhan 1 o Ffurflen 8

Gwybodaeth ddewisol i'w defnyddio yn y ganolfan (**Sylwer: Nid** oes angen hyn at ddibenion arolygu)

Os yw'n ddefnyddiol, defnyddiwch y lle gwag hwn i gofnodi unrhyw drefniadau mynediad pellach y bydd gan yr ymgeisydd **nad oes** angen eu prosesu ar-lein (h.y. trefniadau sydd wedi'u dirprwyo i'r ganolfan):

## Datganiad

Rwy'n fodlon bod y wybodaeth ar y ffurflen hon yn gywir.

| | |
|---|---|
| **Enw** | |
| **Swydd** | |
| **Llofnod** | |
| **Dyddiad** | |

©CGC 2023 – Yn weithredol o 1 Medi 2023